

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

BIL DIWYGIO LLES A GWAITH: DARPARIAETHAU'R COMISIWN SYMUDEDD CYMDEITHASOL

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Diwygio Lles a Gwaith (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 9 Gorffennaf 2015. Gellir cael copi o'r Bil yn:

<http://services.parliament.uk/bills/2015-16/welfarereformandwork.html>

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.
4. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai prif amcanion polisi'r Bil yw cefnogi ymrwymadau'r Llywodraeth i gynyddu cyflogaeth; arafu twf y gyllideb les, er mwyn helpu i sicrhau system les gynaliadwy; a chefnogi polisi sy'n gwobrwyo gwaith caled ynghyd â gwella tegwch ar aelwydydd lle bo rhywun yn gweithio.
5. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch:
 - adroddiadau am y cynnydd a wneir tuag at gyrraedd cyflogaeth lawn a'r targed ar gyfer prentisiaethau;
 - adroddiadau am effaith y cymorth sydd ar gael i deuluoedd sy'n cael trafferthion;
 - symudedd cymdeithasol;
 - y cap ar fudd-daliadau;
 - nawdd cymdeithasol a chredydau treth;
 - benthyciadau ar gyfer morgais llog;
 - rhenti tai cymdeithasol.

Y darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

6. Yn y bôn, mae Cymal 5 o'r Bil Diwygio Lles a Gwaith yn nodi'r cynigion i ddiwygio Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant y DU, a fydd yn newid i fod yn Gomisiwn Symudedd Cymdeithasol. Bydd cylch gwaith diwygiedig y Comisiwn yn cynnwys hybu symudedd cymdeithasol yn

Lloegr yn unig, a chynghori Llywodraeth y DU (yn ôl ei chais) ar sut i wella symudedd cymdeithasol yn Lloegr.

7. Mae'r darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer yn cael eu disgrifio ym mharagraffau 8 a 9 isod.
8. Mae Cymal 5 yn ychwanegu adran A1C at Ddeddf Tlodi Plant 2010. Mae'r Cymal yn darparu bod rhaid i'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol gyhoeddi adroddiad blynyddol yn amlinellu ei safbwyntiau ar hynt y gwaith a wnaed o ran gwella symudedd cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig.
9. Mae gwelliant rhif 16, a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Iain Duncan Smith ar 21 Hydref 2015, ac a restrir yn yr Hysbysiadau o Ddiwygiadau a wnaed hyd at ddydd Mercher 21 Hydref 2015, ac ar y diwrnod hwnnw, yn diwygio Deddf Tlodi Plant 2010, fel na fydd gan Weinidogion Cymru y swyddogaeth i benodi Comisiynydd ar gyfer Cymru i'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol.
10. Mae'r darpariaethau'n gymwys mewn perthynas â Chymru.
11. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn ymwneud â "lles cymdeithasol gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol" a "Diogelwch a lles plant" o dan baragraff 15 (Lles Cymdeithasol) o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
12. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol eisoes wedi ystyried Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â darpariaethau am y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant yn y Bil a ddaeth yn Ddeddf Diwygio Lles 2012. Cafodd y Memorandwm sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau hynny ei osod ym mis Ionawr 2012, oherwydd i Lywodraeth Cymru ystyried y nodau o (i) wella symudedd cymdeithasol a (ii) lleihau tloidi plant o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad

13. Ym marn Llywodraeth Cymru, y Bil hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf addas a chymesur i alluogi cymhwyso'r darpariaethau hyn mewn perthynas â Chymru. Oherwydd, er bod y darpariaethau o fewn cymhwysedd y Cynulliad, mae'r darpariaethau'n ymwneud â chynigion Llywodraeth y DU i ddiwygio'r Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant, sy'n gorff ar gyfer y DU gyfan. Rydym yn ystyried ei bod yn rhesymol i'r holl ddarpariaethau sy'n ymwneud â diwygio'r Comisiwn gael eu gweithredu ar yr un pryd ym Mil Llywodraeth y DU, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu trin mewn ffordd gydlynol ar draws y DU.

Y goblygiadau ariannol

14. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r darpariaethau hyn.

Lesley Griffiths AC
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Hydref 2015